Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Modiwleiddio Taliadau O Dan Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) cyn "Archwiliad Iechyd y PAC"[1]

Gorffennaf 2008

## Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Hwylus hwn yn rhoi darlun hanesyddol o fodiwleiddio hyd at Archwiliad Iechyd y PAC yn 2008. Gweler papur ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau *EU Common Agricultural Policy: 2008 CAP Health Check*[1] i gael y manylion.

## Y Cefndir

Mae modiwleiddio'n ffordd i ailddosbarthu arian yn y PAC[2] heb gynyddu cyfanswm y gyllideb. Mae taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan golofn 1 o'r PAC (er enghraifft drwy'r Taliad Sengl) yn cael eu lleihau gan drefnu bod y derbyniadau ar gael i gefnogi gweithgareddau datblygu gwledig, er enghraifft mentrau cymunedol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol, o dan golofn 2 o'r PAC. Ar lefel yr UE, cafodd modiwleiddio gwirfoddol ei ddechrau yn 2001. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Deyrnas Unedig wedi defnyddio modiwleiddio ac mae Ffrainc a'r Almaen hefyd wedi defnyddio'r gyfundrefn wirfoddol am gyfnodau byr.

Yn y Deyrnas Unedig, mae gan bob un o'r pedair gwlad Gynllun Datblygu Gwledig (RDP)[3] a gymeradwywyd gan y Comisiwn, gan adlewyrchu setliad cyfansoddiadol y gweinyddiaethau datganoledig. Rhwng 2001 a 2004, cafwyd un gyfradd ar gyfer modiwleiddio gwirfoddol ledled y Deyrnas Unedig lle câi'r derbyniadau eu neilltuo i gefnogi mesurau amaeth-amgylcheddol o dan echel 2 (cynnal a diogelu'r amgylchedd a threftadaeth wledig) yn y Cynlluniau Datblygu Gwledig cyfredol.

[1] Papur Ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau 08/007, *EU Common Agricultural Policy: 2008 Health Check*, Chwefror 2008

[2] Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yw un o bolisïau pwysicaf yr UE ac mae iddo ddwy "Golofn". Mae Colofn 1 yn cynnwys mesurau cymorth marchnad (megis Cynllun y Taliad Sengl) a chymorthdaliadau uniongyrchol i gynhyrchwyr yn yr UE (ffermwyr), ac mae Colofn 2 yn cefnogi rhaglenni datblygu gwledig, gan gynnwys Tir Gofal. I gael rhagor o wybodaeth am y PAC, gweler Pennod 2 o European Union – Second Report, ordered by the House of Lords, 6 Mehefin 2005

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynllun Datblygu Cymru Wledig 2000-2006. Cafodd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Bwyllgor Datblygu Gwledig y Comisiwn ar 20 Chwefror 2008.

## Modiwleiddio Gorfodol

O dan gytundeb diwygio'r PAC ym Mehefin 2003, y rhoddwyd ei effaith gyfreithiol iddo yn **Rheoliad y Cyngor 1782/2003**, cafodd modiwleiddio gorfodol ei gymhwyso ar draws 15 Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (EU 15) o 2005 ymlaen. Gosodwyd y gyfradd yn 3 y cant y flwyddyn honno, gan godi i 4 y cant yn 2006 ac yna 5 y cant o 2007 ymlaen.

Cytunwyd ar fesurau trosiannol (**Rheoliad y Comisiwn 1655/2004**), i gydnabod y safbwynt yn y Deyrnas Unedig, sef y gallai Aelod-wladwriaeth, yn sgil cyflwyno modiwleiddio gorfodol o 2005 ymlaen, ddefnyddio modiwleiddio ychwanegol er mwyn parhau i greu derbyniadau i gefnogi mesurau yn yr RDP a oedd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn erbyn Rhagfyr 2005. Darparodd y cytundeb hwn y gallai'r gyfundrefn modiwleiddio ychwanegol gael ei defnyddio ar lefel ranbarthol.

## Defnyddio Modiwleiddio yng Nghymru hyd at 2007

Yn achos Cymru, mae hyn yn golygu bod y modiwleiddio cyffredinol wedi'i bennu yn ôl cyfradd o 4.5 y cant ar gyfer 2005 a 2006 (gydag elfen orfodol o 3 y cant a 4 y cant yn y drefn honno). Cafodd y derbyniadau a grëwyd eu targedu ar fesurau amaeth-amgylcheddol o dan echel 2[4] o'r Cynllun Datblygu Gwledig cyfredol ac, yn benodol, ar fwrw ymlaen ag agenda amaeth-amgylcheddol ehangach o dan Dir Gofal a Thir Cynnal.

Bwriad modiwleiddio yw caniatáu i becyn cytbwys cyffredinol o ddatblygu gwledig gael ei gyflwyno drwy ganiatáu symud arian rhwng dwy golofn y PAC o fewn y terfynau ariannol a bennir gan yr UE. Ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013, llwyddwyd i drefnu bod arian ar gael at weithgareddau amaeth-amgylcheddol (echel 2) ac ar yr un pryd caniatáu i adnoddau o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF)[5] gael eu defnyddio o dan echelau 1 (creu sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth cryfach) a 3 (gwella cystadleurwydd economaidd cymunedau ac ardaloedd gwledig) yr RDP.

## Trefniadau "N" (Rheolau ar Wario Derbyniadau Modiwleiddio)

Rhaid i'r derbyniadau o fodiwleiddio gael eu gwario o fewn cyfnod amser penodedig o dan drefniadau "N". O 2001 ymlaen, y rheol yw "N+4" ac mae'n rhaid i dderbyniadau o'r gyfundrefn fodiwleiddio wirfoddol gael eu defnyddio erbyn diwedd y bedwaredd flwyddyn ar ôl y flwyddyn y casglwyd y derbyniad.[6] Mae derbyniadau o fodiwleiddio gorfodol a

[4] Mae Canllawiau Strategol yr UE ar gyfer Datblygu Gwledig yn amlinellu pedair echel y caniateir gwario odanynt. Mae Echel 2 yn ymdrin â'r amgylchedd a chefn gwlad – gweler HysbysHwylus 10 Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cyllid Datblygu Gwledig yng Nghymru, i gael rhagor o wybodaeth.
[5] EAGGF oedd un o'r pedair cronfa strwythurol oedd ar gael i'r UE ar gyfer cylch rhaglenni 2000-2006 i roi sylw i anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd ar draws ardaloedd cymwys yr Undeb.
[6] Mae blwyddyn ariannol yr EAGGF yn rhedeg o fis Hydref i fis Hydref

gasglwyd yn 2005 yn gweithredu o dan reol "N+0", hynny yw bod rhaid i dderbyniadau a gasglwyd yn 2005 gael eu defnyddio erbyn 15 Hydref 2006 (diwedd y cyfnod ariannol sy'n llywodraethu Cynlluniau Datblygu Gwledig cylch cynllunio 2000-06). Ar ôl hynny, y rheol sy'n gymwys yw "N+2", sef bod rhaid i'r derbyniadau gael eu defnyddio erbyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y cawsant eu casglu.

O dan drefniadau "N", mae unrhyw dderbyniadau sydd heb eu defnyddio erbyn y dyddiad penodedig yn gorfod cael eu dychwelyd i'r Comisiwn.

## Derbyniadau Modiwleiddio

Nes iddynt gael eu defnyddio, mae derbyniadau modiwleiddio gwirfoddol yn cael eu cadw mewn cyfrif crog, sydd y tu allan i brif gyllidebau'r Cynulliad. Mae rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd yn nodi ar ba fesurau perthynol yn yr RDP y caniateir i'r derbyniadau modiwleiddio gael eu gwario. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol a choedwigaeth.

Dechreuwyd casglu derbyniadau wedi'u modiwleiddio yn 2001. Hyd at 31 Mai 2008, roedd **£26.9 miliwn** o dderbyniadau wedi'u modiwleiddio wedi cael eu casglu.

**Tabl 1 - Derbyniadau Modiwleiddio Gwirfoddol fesul Blwyddyn Ariannol**

| B'n Ariannol | Derbyniadau (*£m* ) |
|---|---|
| 2001-02 | 2.4 |
| 2002-03 | 4.0 |
| 2003-04 | 7.1 |
| 2004-05 | 6.6 |
| 2005-06 | 5.1 |
| 2006-07 | 0.9 |
| 2007-08 | 0.8 |
| 2008-09[a] | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **26.9** |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cynulliad Cymru
**Nodyn**: [a] Ar 31 Mai 2008

Dechreuwyd gwario refeniw o'r derbyniadau modiwleiddio yn 2003. £1.3 miliwn oedd gwariant blwyddyn ariannol 2003-04 sef swm sydd wedi cynyddu yn y blynyddoedd dilynol. Hyd at 31 Mai 2008, mae cyfanswm o £18.9 miliwn o gyllid modiwleiddio gwirfoddol wedi'i wario.

**Tabl 2 – Gwariant y Cyllid Modiwleiddio Gwirfoddol fesul Blwyddyn Ariannol**

| B'n Ariannol | Derbyniadau (£m) |
|---|---|
| 2003-04 | 1.3 |
| 2004-05 | 0.9 |
| 2005-06 | 4.2 |
| 2006-07 | 3.9 |
| 2007-08 | 6.1 |
| 2008-09[a] | 2.5 |
| Cyfanswm | 18.9 |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cynulliad Cymru
**Nodyn**: [a] Ar 31 Mai 2008

Balans y derbyniadau modiwleiddio gwirfoddol yn y cyfrif crog ar 31 Mai 2008, felly, oedd **£8 miliwn.**

Nid yw'r derbyniadau o fodiwleiddio gorfodol yn cael eu cadw mewn cyfrif crog, ond yn hytrach eu tynnu i lawr o Ewrop. Cyflwynwyd modiwleiddio gorfodol yn 2005 yn ôl y gyfradd o 3 y cant; codwyd y gyfradd i 4 y cant yn 2006 a 5 y cant ar gyfer 2007.

## Newid o 2007 ymlaen

Yng nghyfarfod Cyngor Gweinidogion Ewrop yn Rhagfyr 2005, cytunwyd ar bersbectif ariannol yr UE ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007 -2013.[7] Roedd y cytundeb yn cynnwys cyflwyno cyfundrefn modiwleiddio gwirfoddol (VM), yn ychwanegol at y gyfundrefn modiwleiddio gorfodol (CM), lle gallai VM gael ei ddefnyddio hyd at uchafswm o 20 y cant. Os defnyddir VM, mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Gwledig 2007-2013 nodi'r cyfraddau blynyddol sydd i'w defnyddio.

O ran y trefniadau "N", yn achos y gyfundrefn Modiwleiddio Gwirfoddol "newydd" o 2007 ymlaen, "N+2" fydd y rheol gymwys.

Ers 2001, mae derbyniadau modiwleiddio yng Nghymru wedi'u hategu ag arian cyfatebol punt am bunt gan Drysorlys EM. Mae arian cyfatebol y Trysorlys ar gyfer modiwleiddio wedi'i leoli yn Llinell Gwariant Cyllideb (BEL) Tir Cymru ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Cafodd arian cyfatebol ar gyfer modiwleiddio ei gynnwys yn Nherfyn Gwariant Adrannol (DEL) y Cynulliad fel rhan o adolygiad gwariant 2004. Gan hynny, mae'n cael ei dynnu i lawr o'r Trysorlys yn yr un ffordd â'r holl adnoddau sy'n cael eu dyrannu i'r Cynulliad ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol benodol.

[7] Y Cyngor Ewropeaidd, ***Financial Perspective 2007-2013***, Paragraff 62 sy'n ymdrin â modiwleiddio gwirfoddol

## Cynigion at y dyfodol

O dan Archwiliad Iechyd y PAC, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig newidiadau yn y Modiwleiddio Gorfodol. Mae'r cynigion, a gyhoeddwyd ar 20 Mai 2008, yn awgrymu cynyddu 2 y cant y flwyddyn ar Fodiwleiddio Gorfodol ar daliadau rhwng €5,000 a €99,999 hyd at 2012. Byddai hynny'n ychwanegol at y gyfradd bresennol o 5 y cant nes cyrraedd cyfanswm o 13 y cant. Mae'r Comisiwn hefyd yn bwriadu codi 3 y cant ar y Modiwleiddio Gorfodol mewn trothwyon olynol, fel yr esbonnir yn y tabl canlynol:

**Tabl 3 – Cyfraddau modiwleiddio gorfodol arfaethedig i wladwriaethau'r EU-15**

| | Blwyddyn Galendr | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Trothwyon (€)** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** |
| **1 i 5,000** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **5,000 i 99,999** | 5% + 2% | 5% + 4% | 5% + 6% | 5% + 8% |
| **100,000 i 199,999** | 5% + 5% | 5% + 7% | 5% + 9% | 5% + 11% |
| **200,000 i 299,999** | 5% + 8% | 5% + 10% | 5% + 12% | 5% + 14% |
| **uwchlaw 300,000** | 5% + 11% | 5% + 13% | 5% + 15% | 5% + 17% |

**Ffynhonnell:** Cynigion Archwiliad Iechyd PAC yr UE

Cynigir y bydd yr holl dderbyniadau newydd o fodiwleiddio yn aros yn yr aelod-wladwriaeth sy'n eu cynhyrchu. Bydd y tabl uchod yn gymwys i aelod-wladwriaethau'r EU-15.

**Mae'r rhain yn dibynnu ar negodi gyda'r Aelod-wladwriaethau ac fe allen nhw newid eto cyn eu cymeradwyo'n ffurfiol.**

Mae rhagor o wybodaeth am y cynigion ar gael yng Nghynigion Archwiliad Iechyd PAC y Comisiwn Ewropeaidd a welir isod o dan *Ragor o Wybodaeth*.

## Rhagor o Wybodaeth:

- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Adran Amgylchedd a Chefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Polisi Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd
- Cynigion Archwiliad Iechyd PAC y Comisiwn Ewropeaidd

- Rhestr lawn o'r Hysbysiadau Hwylus

**MRS 08/2184/Martin Jennings and Carys Jones**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**